**Y Pwyllgor Deisebau**

# PET(3)02-08 (p6): 31 Ionawr 2008

## Cyfeirnod y ddeiseb P-03-101: Cynllun gwastraff rhanbarthol drafft Gogledd Cymru

**Geiriad y ddeiseb: Mae geiriad y ddeiseb i'w weld ym mhapur PET(3) 02-08 (p6A).**

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon.

### Cefndir

Mae Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn darparu cynlluniau rheoli gwastraff strategol hirdymor ynghyd â fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer bob un o'r tri rhanbarth cynllun gwastraff (y Gogledd, y De-ddwyrain a'r De-orllewin).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb am baratoi, monitro ac adolygu'r cynlluniau hyn i'r Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol. Cynghorwyr o awdurdodau cynllunio'r rhanbarthau yw aelodau'r grwpiau hyn. Mae'r tri Grwp Gwastraff Rhanbarthol yn cael cymorth gan grwp technegol. Swyddogion awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, CNLCau eraill yw aelodau'r grwpiau technegol, yn ogystal â chynrychiolwyr o fyd diwydiant a grwpiau amgylcheddol.

Cynllun anstatudol yw Adolygiad 1af y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Pan gaiff ei gyflwyno, bydd yn disodli'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol presennol a bydd yn ystyriaeth berthnasol o ran cynllunio. Dechreuodd y broses adolygu ym mis Ebrill 2005. Cynhaliwyd proses ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid dros gyfnod o ddeg wythnos ddiwedd 2007 er mwyn cynnwys y casgliadau yn Adolygiad 1af y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a gaiff ei gyhoeddi yn 2008.

Mae llythyr ategol gan y prif ddeisebwr ynghlwm ym mhapur PET(3) 02-08 (p6B).

### Deisebau Ychwanegol

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am nodi bod deiseb P-03-095, sy'n cael ei hystyried o dan yr eitem hon ar yr agenda, yn cyflwyno tair deiseb ychwanegol sy'n mynegi pryder â'r broses ymgynghori yn rhanbarthau'r Gogledd a'r De-ddwyrain.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008